# AP GLASLYN.

## HUW WILLIAMS a champau'r hen gerddor

PE GOFYNNID mewn cystadleuaeth gwybodaeth gyffredinol ar radio sain pwy oedd prif ddiddanwr Cymreig y ganrif ddiwethaf, mae'n debyg mai'r ateb parod fyddai mai John Orlando Parry, mab i John Parry (Bardd Alaw) oedd hwnnw.

Ond er mai gwir fyddai dweud bod Orlando yn ddiddanwr medrus a phrofiadol iawn (ac yn ŵr sydd â llawer o ddefnyddiau ynglŷn â'i waith yn ein Llyfrgell Genedlaethol, gyda llaw), anaml iawn y gwelid ef ar lwyfannau Cymru.

Yn hytrach, yn Lloegr yr enillodd ei blwyf fel offerynnwr ac fel datganwr cerddi ysgafn a fedrai siglo cynulleidfa, ac y mae'n ddiamau bod ei ddiffyg gwybodaeth o'r Gymraeg yn anfantais fawr iddo yn y Gymru uniaith rhyw ganrif a hanner yn ôl.

Ond nid felly yr oedd yn hanes John Owen (Ap Glaslyn), un o wŷr mwyaf amryddawn Cymru yn y ganrif ddiwethaf, a gŵr yr wyf am fentro dweud y byddai cofiant iddo yn un o 'best-sellers' y nawdegau, petai rhywun yn cael ei ysbrydoli i fynd ati i'w ysgrifennu.

Clywais fynegi barn yn ddiweddar mai Gwilym Hiraethog oedd Cymro mwyaf amlochrog y ganrif ddiwethaf. Os felly, yn glos iawn wrth ei sodlau yr oedd yr 'Ap', a ddaeth yn adnabyddus yn ei ddydd fel prydydd, llenor, datganwr, areithiwr, cyfansoddwr, efengylwr, dirwestwr a dramodydd, gan ddisgleirio ym mhob maes y bu'n llafurio ynddo.

Rai blynyddoedd yn ôl, cefais y fraint o drosglwyddo rhai o bapurau teulu'r Ap i ofal ein Llyfrgell Genedlaethol, a hynny wedi imi gael agoriad llygaid ar ôl eu darllen.

* * *

GŴR OEDD Ap Glaslyn a ddaeth yn drwm dan ddylanwad Diwygiad Crefyddol 1904-05, a'i benodi ar ôl hynny (ar awgrym neb llai na'r Dr John Williams, Brynsiencyn, a'r Dr Thomas Charles Williams, Porthaethwy!) yn 'genhadwr' i'r nafis a oedd yn gweithio ar Gronfa Ddŵr Alwen, cyn symud i weithio gyda'r Symudiad Ymosodol yn rhai o ganolfannau'r de, ac yn olaf fel gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Llanbradach, ym Mro Prifwyl 1990, lle y bu farw ym mis Ebrill 1934.

Cariad cyntaf yr Ap — yn ôl ei bapurau — oedd cerddoriaeth. Yn frodor o Feddgelert, enillodd ei dystysgrif gyntaf mewn cerddoriaeth pan oedd yn un ar ddeg oed, gyda Ieuan Gwyllt fel arholwr.

Yna (yn ôl tystiolaeth Bryfdir, ei gefnder) dihangodd i'r môr yn ieuanc, ac ar ôl dychwel o grwydro byd bu'n chwarelwr ym Mlaenau Ffestiniog ac yna'n ddisgybl athro, cyn penderfynu dychwel at gerddoriaeth, ei gariad cyntaf.

Mae'n amlwg bod dylanwad rhai o aelodau cerddgar y teulu yn bur drwm arno; John Jones, ei daid — tad ei fam — oedd arweinydd Côr Beddgelert, ac ni fu William Jones (Bleddyn) — ewythr iddo, frawd i'w fam — yn fyr o geisio ei argyhoeddi mai manteisiol iddo fyddai mynd ati i feistroli elfennau cerddoriaeth.

Erbyn wythdegau cynnar y ganrif ddiwethaf, 'roedd yr Ap wedi datblygu'n ddatganwr bariton o'r radd flaenaf; adroddais eisoes am rai o'i gampau, megis y tro hwnnw pan enillodd ar y brif unawd mewn cyngerdd cystadleuol ym Mhafiliwn Caernarfon yn 1882, a hynny trwy bleidlais cynulleidfa fawr o saith mil (gweler *Canu'r Bobol*, tt.155-156).

Yn rhai o'i bapurau, awgrymir ei fod wedi canu am gyfnod gyda Chwmni Opera Carl Rosa yn Lloegr, ond iddo ddewis dychwel at ei bobl ei hun, ac 'arbenigo' mewn dehongli caneuon ysgafn ar lwyfannau'r cyngherddau a oedd mewn bri mawr yn ein gwlad yn ystod cyfnod ei anterth.

* * *

BU WRTHI'N ddiwyd am rai blynyddoedd yn llunio ei ganeuon ei hun, gan ysgrifennu'r geiriau a'r gerddoriaeth ar eu cyfer ambell dro. Tro arall, cawsai ei ysbrydoli i lunio'r miwsig yn unig, a hynny ar ôl cael ei swyno gan gerdd yn un o'r cylchgronau, megis y tro hwnnw pan welodd eiriau 'Pa le mae'r Amen?' (gan Gwyrosydd) ar dudalennau *Trysorfa'r Plant* ym mis Mawrth 1886.

Teithiai o ardal i ardal ac o gyngerdd i gyngerdd a chael hwyl fawr yn morio ffefrynnau megis 'I godi'r hen wlad yn ei hôl', 'Yr hen simdde fawr', 'Cannwyll fy llygaid wyt ti', a 'Hen brocer bach gloyw fy nain'.

Byddai'r cynulleidfaoedd yn dotio at y math hwn o adloniant rhyw ganrif a chwarter yn ôl, ac y mae'n arwyddoc)aol nad yw ambell i gân y byddai'r Ap yn ei harddel, ac yn dwyn deigr i'r llygaid wrth ei chanu, yn llwyr allan o ffasiwn eto!

Ond nid cerddoriaeth oedd ei unig ddiddordeb; cyfrannai gerddi yn gyson i rai o'r cylchgronau, cystadleuai'n fynych yn yr eisteddfod, ac arloesodd yng ngwir ystyr y gair fel actiwr gyda Chwmni Drama Llanberis — un o'r cwmnïau cyntaf yn ein gwlad, meddir — gan ennyn llid a dicter rhai o biwritaniaid selog ei dydd gyda'i gynyrchiadau anturus o *Rhys Lewis* a *Hamlet*.

Ond beth tybed oedd agwedd yr Ap tuag at adloniant wedi iddo newid meistr a newid gwaith yn 1904-05? Yr ateb yw bod y llwyfan yn dal i apelio ato, a hynny i'r graddau a barodd iddo lunio dwy ddarlith faith, a'u traddodi ledled Cymru, ac mewn rhai canolfannau Cymreig yn Lloegr hefyd.

* * *

I UN ddarlith, yn cael ei disgrifio ganddo fel 'darlith yn ymwneud â digwyddiadau hynod yn dilyn y deffroad cenedlaethol, a'r Diwygiadau Cymreig, a gwledd o atgofion mewn sain, cân a moliant', fe roes y teitl 'Y Tân Cymreig'.

Teitl y llall, sef darlith hunangofiannol, pryd y ceisiai efelychu goslef Richard Owen, y Diwygiwr o Fôn, ac y bu bri mawr arni, oedd 'O'r llwyfan i'r pulpud'.

Bydd y mwyafrif o'r pererinion ffyddlon a fydd yn cyfeirio eu camre i Faes y Brifwyl eleni yn hen gyfarwydd â chlywed lleisiau David Lloyd a Richie Thomas yn canu 'Pa le mae'r Amen?', a'r to hŷn efallai yr un mor gyfarwydd â dawn bregethu neu ddawn darlithio y Parchedigion Jubilee Young a Robert Ellis, Tŷ-croes.

Onid yw'n resyn nad oes enghraifft o ddawn ganu nac o ddawn areithio Ap Glaslyn ar gael a chadw? Oherwydd hynny, ni ellir ond dyfalu beth fyddai'r ymateb i adloniant y teidiau rhyw ganrif a rhagor yn ddiweddarach!

# GOSOD CYMRU AR Y MAP

Gan
IOLO FRANCIS ROBERTS

CYMDEITHAS gymharol ieuanc yw Cymdeithas Ryngwladol Casglwyr Mapiau, (the International Map Collectors' Society) neu IMCOS.

Dathlwyd ei phen blwydd yn ddeg oed pan gafwyd tair darlith yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Testun y Dr. D. Huw Owen, Ceidwad yr Adran Darluniau a'r Mapiau oedd 'Mapiau printiedig cynnar o Gymru gyda phwyslais arbennig ar fap proflen Saxton' (gweler tud. 20).

Yn dilyn, cafwyd cyfle i ymweld â'r Adran Darluniau a Mapiau i astudio'r map-proflen a hefyd y llu o drysorau eraill oedd wedi eu harddangos yn arbennig ar ein cyfer. Atlasau safonol megis *'An Atlas of England and Wales'* Saxton, a'r *'The Theatre of the Empire of Great Britaine'* Speed; mapiau unigol di-rif, gan gynnwys enghreifftiau o'r *'Cambriae Typus'* Humphrey Lluyd; siartiau arfordir Cymru Lewis Morris a'i fab William Morris, a hefyd, rhywbeth o ddiddordeb anghyffredin i ni'r Cymry, sef y map cyntaf o'r byd yn yr iaith Gymraeg.

Ymddangosodd y map hwn yn y *Geiriadur Ysgrythyrol* gan Thomas Charles, llyfr a gyhoeddwyd yn y Bala gan Saunderson ddechrau'r ganrif diwethaf. Ymddangosodd y map am y tro olaf yn 1836, a chafwyd hyd i'r plat a ddefnyddiwyd mewn tŷ yn y Bala yn 1980. Mae'r plat yn awr ar gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol.

* * *

'MERFYN Prichard — an example of a map collector' oedd pwnc yr ail ddarlith gan Robert Davies. Ganwyd Merfyn Prichard ym Miwmares yn 1866. Pensaer oedd wrth ei alwedigaeth, ac yn llanc ifanc aeth i Lundain i weithio fel dylunydd i'r Weinyddiaeth Adeiladau, yn benodol i ddarlunio adroddiadau'r Comisiwn Henebion. (Mae engrheifftiau o'i waith proffesiynol fel ffotograffydd ac arlunydd ar gael yn Aberystwyth).

Gan ei fod yn Llundain yn ystod y 1920 a'r 1930au, roedd o fewn cyrraedd hwylus i'r tai gwerthu a'r llyfrwerthwyr oedd yn trafod llyfrgelloedd y tai mawr oedd yn edwino ac yn cael eu chwalu bryd hynny, a datblygodd ddiddordeb arbennig mewn daearyddion (geographies) ac atlasau cynnar.

Am resymau nad ydynt yn hollol eglur, ddechrau 1939 rhoddodd Prichard ar ddeall y byddai'n fodlon gwerthu'r casgliad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru o bosib! Yn naturiol roedd adnoddau'r Llyfrgell yn brin iawn bryd hynny ac nid ar chwarae bach y llwyddodd Mr Noel Jerman, Pennaeth yr Adran Darluniau a'r Mapiau ar y pryd, i sicrhau'r casgliad i Aberystwyth.

Defnyddiodd Robert Davies bapurau o Archif y Llyfrgell i olrhain y bargeinio caled fu dros gyfnod o ddwy flynedd cyn y bodlonodd Prichard i werthu.

Casgliad llawer mwy diweddar, sef y siartiau a gaslgwyd gan Mrs Olwen Caradoc Evans, awdur *'Marine Plans and Charts of Wales'* yr unig lyfr cyfeiriadol ar siartiau môr arfordir Cymru, oedd testun ein darlith olaf. Dyma eto gasgliad pwysig, a chawsom gipolwg ar enghreifftiau o'r casgliad yng nghwmni Gwilym Tawe un arall o staff yr Adran.